OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 3227

# Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003

**Gwahardd disgyblion: darparu gwybodaeth i'r awdurdod addysg lleol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru**

**5.**—(1) Yn ystod pob tymor rhaid i'r corff llywodraethu ddarparu'r wybodaeth ganlynol am bob gwaharddiad i'r awdurdod addysg lleol —

(a) enw, oedran, rhyw a grŵp ethnig y disgybl sydd wedi'i wahardd;

(b) a oes gan y disgybl sydd wedi'i wahardd ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n cael ei gadw gan awdurdod addysg lleol o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), a yw'n cael ei asesu ar gyfer datganiad o'r fath neu a yw'n cael cymorth ar ffurf Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn unol â Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru(**2**) a gyhoeddwyd o dan adran 313 o Ddeddf Addysg 1996 ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002;

(c) a yw'r disgybl sydd wedi'i wahardd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol;

(ch) cyfnod y gwaharddiad; a

(d) y rheswm dros y gwaharddiad.

(2) Rhaid i awdurdod addysg lleol ddarparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, os bydd yn gofyn amdani, unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod hwnnw wedi'i chael oddi wrth bennaeth o dan reoliad 4(4) neu (5) neu oddi wrth gorff llywodraethu o dan reoliad 5(1).

(**1**) 1996 p.56.
(**2**) ISBN 0 7504 2757 4.